OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 202- Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A487, yr A494, yr A458, yr A5 a’r A55 (Gogledd-orllewin Cymru) (Terfynau Cyflymder 20 mya a 30 mya) 202-

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** 202-* |
| *Yn dod i rym* | ***** 202-* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A470 a’r A487 a’r darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A494, yr A458, yr A5 a’r A55, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), 84(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o’u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A487, yr A494, yr A458, yr A5 a’r A55 (Gogledd-orllewin Cymru) (Terfynau Cyflymder 20 mya a 30 mya) 202-, a daw’r Gorchymyn hwn i rym ar **** 202-.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 202- No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A470, A487, A494, A458, A5 & A55 Trunk Roads (North West Wales) (20 mph & 30 mph Speed Limits) Order 202-

| | |
|---|---|
| *Made* | ***** 202-* |
| *Coming into force* | ***** 202-* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 and A487 trunk roads and the relevant lengths of the A494, A458, A5 & A55 trunk roads, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), 84(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of North Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State’s Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A470, A487, A494, A458, A5 & A55 Trunk Roads (North West Wales) (20 mph & 30 mph Speed Limits) Order 202- and this Order comes into force on **** 202-.

(**1**) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Dirymu

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Heulog, Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018(**1**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018(**2**) wedi eu dirymu.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(**2**) O.S. 2018/683 (Cy. 131).

(**3**) O.S. 2018/684 (Cy. 132).

### Interpretation

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

### Restrictions

**3.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

### Revocation

**5.** The A470 Trunk Road (Sun Street, Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2018(**2**) and the A470 Trunk Road (Manod Road, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2018(**3**) are revoked.

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(**2**) S.I. 2018/683 (W. 131).

(**3**) S.I. 2018/684 (W. 132).

**Amrywio**

**6.** Mae Gorchymyn Cyngor Sir Caernarfon (Ardaloedd Adeiledig) 1936 wedi ei amrywio drwy hepgor y cofnod yn yr Ail Atodlen i'r Gorchymyn mewn perthynas â'r darn o ffordd y pennir ei fod ar ffordd yr A.5 Caergybi i Lundain yng Nghapel Curig ac a ddisgrifir fel "Pont Cyfyng to 160 yards west of Cobden's Hotel, a distance of 763 yards".

**7.** Mae Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A494 (Ffordd Osgoi Dolgellau, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad a Gosod Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 2017(**1**) wedi ei amrywio drwy hepgor Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwnnw.

**8.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2017(**2**) wedi ei amrywio drwy hepgor Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw.

**Variation**

**6.** The County Council of Caernarvon (Built Up Areas) Order 1936 is varied by omitting the entry in the Second Schedule to the Order in relation to the length of road specified as being on the London-Holyhead A.5 road at Capel Curig and described as "Pont Cyfyng to 160 yards west of Cobden's Hotel, a distance of 763 yards".

**7.** The A470 and A494 Trunk Roads (Dolgellau By-Pass, Gwynedd) (De-Restricted Road and 50 mph and 30 mph Speed Limits) Order 2017(**1**) is varied by omitting Schedule 3 to that Order.

**8.** The A487 Trunk Road (Porthmadog, Minffordd and Tremadog Bypass, Gwynedd) (30 mph and 40 mph Speed Limits) Order 2017(**2**) is varied by omitting Schedule 1 to that Order.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig **** 202-

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated **** 202-

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Terfyn cyflymder 20 mya

Y darn o gefnffordd yr A470 o'r enw Ffordd Heulog, Llan Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4391 hyd at bwynt 97 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 yng Nghorris Uchaf, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at hen Chwarel Abercwmeiddaw hyd at bwynt 76 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

## SCHEDULE 1
## 20 mph speed limit

The length of the A470 trunk road known as Sun Street, Llan Ffestiniog, Gwynedd that extends from a point 28 metres south-east of the centre-point of its junction with the B4391 to a point 97 metres south-east of the centre-point of that junction.

The length of the A487 trunk road at Corris Uchaf, Gwynedd that extends from a point 20 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road leading to the former Abercwmeiddaw Quarry to a point 76 metres west of the centre-point of that junction.

(**1**) O.S. 2017/486 (Cy. 101).
(**2**) O.S. 2017/700 (Cy. 165).

(**1**) S.I. 2017/486 (W. 101).
(**2**) S.I. 2017/700 (W. 165).

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 30 mya**

**Yr A470**

Y darn o gefnffordd yr A470 ym Mlaenau Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 62 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Glanypwll hyd at bwynt 363 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A470 o'r enw Ffordd Blaenau, Llan Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Bryn Coed hyd at bwynt 110 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Uwch-y-Ddôl.

Y darn o gefnffordd yr A470 yng Nganllwyd, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 13 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Bont ar Eden hyd at bwynt 593 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Nolgellau, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 53 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt cylchfan cyffordd yr A470/yr A493 hyd at bwynt 40 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan y gylchfan.

Y darn o gefnffordd yr A470 o'r new Ffordd Osgoi Dolgellau, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 68 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cylchfan cyffordd yr A470/yr A494 hyd at bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan y gylchfan.

Y darn o gefnffordd yr A470 ym Mallwyd, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 171 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt cylchfan cyffordd yr A470/yr A458 hyd at bwynt 222 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gylchfan honno ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan y gylchfan.

**Yr A487**

Y darn o gefnffordd yr A487 yng Nghorris Uchaf, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 68 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i Ganolfan Fynydda Ty'n y Berth hyd at bwynt 562 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd Osgoi Porthmadog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 86 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Minffordd hyd at bwynt 34 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Threm y Moelwyn,

**SCHEDULE 2**
**30 mph speed limit**

**A470**

The length of the A470 trunk road at Blaenau Ffestiniog, Gwynedd that extends from a point 62 metres north of the centre-point of its junction with Glanypwll Road to a point 363 metres north of the centre-point of that junction.

The length of the A470 trunk road known as Blaenau Road, Llan Ffestiniog, Gwynedd that extends from a point 25 metres north-east of the centre-point of its junction with Bryn Coed to a point 110 metres north-east of the centre-point of its junction with Uwch-Y-Ddol.

The length of the A470 trunk road at Ganllwyd, Gwynedd that extends from a point 13 metres north of the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Pont ar Eden to a point 593 metres south of the centre-point of that junction.

The length of the A470 trunk road at Dolgellau, Gwynedd that extends from a point 53 metres north of the centre-point of the A470/A493 junction roundabout to a point 40 metres south-east of the centre-point of that roundabout and including the entire circulatory carriageway of the roundabout.

The length of the A470 trunk road known as Dolgellau Bypass, Gwynedd that extends from a point 68 metres west of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout to a point 52 metres east of the centre-point of that roundabout and including the entire circulatory carriageway of the roundabout.

The length of the A470 trunk road at Mallwyd, Gwynedd that extends from a point 171 metres north-west of the centre-point of the A470/A458 junction roundabout to a point 222 metres south of the centre-point of that roundabout and including the entire circulatory carriageway of the roundabout.

**A487**

The length of the A487 trunk road at Corris Uchaf, Gwynedd that extends from a point 68 metres north of the centre-point of its junction with the access to Ty'n y Berth Mountain Centre to a point 562 metres south-east of the centre-point of that junction.

The length of the A487 trunk road known as Porthmadog Bypass, Gwynedd that extends from a point 86 metres north-west of its junction with Minffordd Roundabout to a point 34 metres west of the centre-point of its junction with Trem-y-Moelwyn,

Penrhyndeudraeth ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Minffordd.

Penrhyndeudraeth and including the entire circulatory carriageway of Minffordd Roundabout.

Y darn o gefnffordd yr A487 ym Mhenrhyndeudraeth, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad i Ystad Ddiwydiannol Griffin hyd at bwynt 36 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Park Road, Penrhyndeudraeth.

The length of the A487 trunk road at Penrhyndeudraeth, Gwynedd that extends from a point 55 metres north-east of the centre-point of its junction with the access road to Griffin Industrial Estate to a point 36 metres north-east of the centre-point of its junction with Park Road, Penrhyndeudraeth.

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd Osgoi Porthmadog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 160 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Porthmadog hyd at bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan y gylchfan.

The length of the A487 trunk road known as Porthmadog Bypass, Gwynedd that extends from a point 160 metres north-west of the centre-point of Porthmadog Roundabout to a point 97 metres east of the centre-point of that roundabout and including the entire circulatory carriageway of the roundabout.

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd Osgoi Tremadog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 139 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Tremadog hyd at bwynt 99 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan y gylchfan.

The length of the A487 trunk road known as Tremadog Bypass, Gwynedd that extends from a point 139 metres north-west of the centre-point of Tremadog Roundabout to a point 99 metres south-east of the centre-point of that roundabout and including the entire circulatory carriageway of the roundabout.

**Yr A494**

**A494**

Y darn o gefnffordd yr A494 o'r enw Ffordd y Bala, Dolgellau, Gwynedd sy'n ymestyn o'i chyffordd â chylchfan yr A470/yr A494 am bellter o 226 o fetrau.

The length of the A494 trunk road known as Ffordd Bala, Dolgellau, Gwynedd that extends from its junction with the A470/A494 roundabout for a distance of 226 metres.

**Yr A458**

**A458**

Y darn o gefnffordd yr A458 ym Mallwyd, Gwynedd sy'n ymestyn o'i chyffordd â chylchfan yr A470/yr A458 am bellter o 149 o fetrau.

The length of the A458 trunk road at Mallwyd, Gwynedd that extends from its junction with the A470/A458 roundabout for a distance of 149 metres.

**Yr A5**

**A5**

Y darn o gefnffordd yr A5 ym Methesda, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 96 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Chil Caseg hyd at bwynt 380 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

The length of the A5 trunk road at Bethesda, Gwynedd that extends from a point 96 metres north of the centre-point of its junction with Cil Caseg to a point 380 metres south of the centre-point of that junction.

Y darn o gefnffordd yr A5 yng Nghapel Curig, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 87 o fetrau i'r gorllewin o ffin orllewinol yr eiddo o'r enw 'Gorphwysfa' hyd at bwynt 142 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i faes parcio cyhoeddus Bryn Glo.

The length of the A5 trunk road at Capel Curig, Gwynedd that extends from a point 87 metres west of the western boundary of the property known as 'Gorphwysfa' to a point 142 metres north-west of the centre-point of its junction with the entrance to Bryn Glo public car park.

Y darn o gefnffordd yr A5 ym Mhorthaethwy, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 23 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad i'r fynwent hyd at bwynt 268 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

The length of the A5 trunk road at Menai Bridge, Anglesey that extends from a point 23 metres west of the centre-point of its junction with the cemetery access road to a point 268 metres west of the centre-point of that junction.

**Yr A55**

Y darn o gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A55 yng Nghaergybi, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 46 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Llundain hyd at bwynt 48 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Kingsland.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A55 yng Nghaergybi, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 321 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Kingsland hyd at bwynt 46 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Llundain.

Cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Kingsland, Caergybi, Ynys Môn.

**A55**

The length of the southbound carriageway of the A55 trunk road at Holyhead, Anglesey that extends from a point 46 metres south of the centre-point of its junction with London Road to a point 48 metres south of the centre-point of Kingsland Roundabout.

The length of the northbound carriageway of the A55 trunk road at Holyhead, Anglesey that extends from a point 321 metres south of the centre-point of Kingsland Roundabout to a point 46 metres south of the centre-point of its junction with London Road.

The entire circulatory carriageway of Kingsland Roundabout, Holyhead, Anglesey.